## Beirniadaeth

1af Sam Tân – Ffasiwn Brys

Darn mynegi barn effeithiol dros ben. Roedd y gwaith yn drefnus, y dadleuon yn hawdd i'w dilyn, sylw'n cael ei roi i'r ddwy ochr a chasglaid clir a phendant i gloi. Roedd ôl gwaith ymchwil ar y traethawd gyda ffeithiau difyr a dychrynllyd yn rhoi grym i'r dadleuon. Cyflwynwyd y cyfan mewn iaith raenus. Darn aeddfed yn llwyr deilyngu'r wobr gyntaf. Llongyfarchiadau!

**Sam Tân (Adran B) Ffasiwn Brys**

### Mae Ffasiwn Brys yn Anfoesol

Ffasiwn brys yw'r weithred o gynhyrchu dillad ar raddfa fawr yn gyflym gan gwmnïau manwerthu mewn ymateb i'r tueddiadau ffasiwn diweddaraf.
Mae'r diwydiant yn gyfleus ac yn gyflym ac yn gallu ymateb yn gyflym i anghenion prynwyr y dillad. Mae'n golygu bod pobl efo mynediad sydyn at ddillad sy'n adlewyrchu'r ffasiwn diweddaraf ar y stryd fawr ac ar lein am bris rhesymol. Golyga hyn bod posib gwisgo dillad ffasiynol heb orfod gwario ffortiwn na bod yn gyfoethog. Mae'n golygu bod y tueddiadau diweddaraf o fewn cyrraedd pawb.
Peth da arall am ffasiwn brys yw ei fod yn cynhyrchu swyddi manwerthu ac yn fuddiol i economi'r wlad. Byddai'r stryd fawr a'r canolfannau manwerthu yn wag iawn heb bresenoldeb y siopau ffasiwn brys.
Er hyn, rwy'n cytuno'n llwyr gyda'r gosodiad uchod bod ffasiwn brys yn anfoesol. Yn y traethawd yma byddaf yn trafod y rhesymau niferus pam fy mod i'n credu mor gryf yn y gosodiad.
Arian ac elw sy'n gyrru'r diwydiant felly mae deunyddiau rhad a gweithwyr rhad yn cael eu defnyddio. Mae'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu yn anferthol. Mae nifer fawr o effeithiau negyddol i ddiwydiant ffasiwn brys. Rhai effeithiau amgylcheddol, rhai moesegol a rhai cymdeithasol.
Mae'r elfen o frys mewn ffasiwn brys nid yn unig yn cyfeirio at y ffaith bod y ffasiwn diweddaraf yn newid yn sydyn ond hefyd bod y dillad yn cael eu cynhyrchu yn gyflym. Mae galw barus y gymdeithas fodern am y dillad diweddaraf wedi arwain at y diwylliant yma o gynhyrchu ffasiwn ar frys.
Gan bod y dillad yn cael eu cynhyrchu ar raddfa fawr ac i safon israddol, maen nhw'n aml iawn yn rhad i brynu ac felly mae arferion gwisgo dillad wedi newid. Ers talwm byddai pobl yn gwisgo dillad tan eu bod yn mynd yn anwisgadwy. Byddai tyllau yn cael eu trwsio a dillad yn cael eu pasio ymlaen i aelodau eraill o'r teulu wrth i blant dyfu. Dyddiau yma mae'r arfer yma yn brinnach gan bod y dillad mor rhad ac o safon wael, nid ydynt yn werth eu trwsio. Mae'n llawer haws mynd i'r siop neu i archebu dillad ar lein. Mae hyn yn wastraffus ac yn wael i'r amgylchedd.

Mae’r tunelli o wastraff sy’n cael ei gynhyrchu gan y diwydiant ffasiwn brys yn cyfrannu’n enfawr at ein problemau tirlenwi.
Sgil effaith arall o hyn yw fod pobl ddim yn dysgu’r sgiliau i drwsio eu dillad ac mae dulliau traddodiadol o wneud dillad yn cael eu anghofio. Ers talwm, byddai’n rhan arferol o addysg pob merch i ddysgu sut i weu a sut i wnïo. Heddiw, fel canlyniad o’r tuedd tuag at ffasiwn brys, mae hyn yn mynd yn brinnach ac yn brinnach a phrin iawn yw’r bobl sy’n dal i allu gwneud hyn.
Effaith arall sydd ganddo ar yr amgylchedd yw y ffaith bod y diwydiant yn defnyddio mwy a mwy o ddefnyddiau rhatach wedi eu creu o blastig. Mae'r diwydiant yn ddibynnol iawn ar ddefnyddiau synthetig, er enghraifft, polyester, neilon, acrylig ac elastane. Mae’r rhain yn rhad iawn i'w cynhyrchu, er enghraifft, mae polyester yn costio hanner cymaint fesul kg ag ydi cotwm. Mae hyn yn galluogi cwmnïau i gadw prisiau yn isel ond mae’r effaith ar yr amgylchedd yn ddrud. Gan bod canran mor uchel o’r dillad yma yn diweddu mewn safleoedd tirlenwi, mae’n gadael ôl troed carbon anferthol.
Effaith negyddol arall ar yr amgylchedd o ganlyniad i ddefnyddio’r deunyddiau synthetig yw’r effaith pan mae’r dillad yn cael eu golchi. Bob tro mae deunyddiau fel polyester, neilon, acrylig ac elastane yn cael eu golchi, maen nhw’n rhyddhau meicroffibrau i'r system dŵr. Mae hyn yn golygu bod miliynau o ddarnau bychan bach o blastig yn cyrraedd y môr yn ddyddiol. Mae hyn yn niweidiol iawn i bysgod, i'r ecosystem ac i fioamrywiaeth tanfor, gan fod pysgod a chreaduriaid y môr yn llyncu’r meicroffibrau. Nid yw hyn yn iach, ac mae’n cael effaith negyddol a dinistriol ar ein moroedd.
Un arall o effeithiau amgylcheddol diwydiant ffasiwn brys yw ei ddefnydd o ddŵr. Mae'r broses ddiddiwedd o greu dillad newydd yn golygu bod y sector yn defnyddio 93 biliwn metr ciwbig o ddŵr bob blwyddyn. Mae'r dŵr yma a ddefnyddir yn bennaf i drin tecstiliau ac i liwio defnyddiau yn cyfrannu at tua 20% o lygredd dŵr diwydiannol.
Mae'r diwydiant ffasiwn hefyd yn dylanwadu’n drwm ar allyriadau byd-eang nwyon tŷ gwydr. Amcangyfrifir bod y diwydiant ffasiwn yn gyfrifol am hyd at 10% o holl allyriadau carbon y byd. Credir bydd yn cynyddu wrth 50% erbyn 2030, yn ei wneud yn gyfrifol am 15% o holl allyriadau carbon y byd.

Mae’r ffaith bod tueddiadau ffasiwn yn newid mor sydyn yn golygu bod pwysau mawr ar gwmnïau i gynhyrchu dillad newydd yn fwy fwy cyflym. Mae disgwyl i ffatrïoedd gynhyrchu mwy a mwy o ddillad mewn amser byr iawn. Mae hyn wedi arwain nifer o gwmnïau i symud eu ffatrïoedd i wledydd sydd yn talu cyflogau isel i'w gweithwyr, er enghraifft Bangladesh, Fietnam, India, Cambodia, Tsieina ac Indonesia.
Mae gweithwyr yn y gwledydd hyn yn cael eu hecsbloetio ac eu gorweithio. Hefyd mae llawer o dystiolaeth bod plant yn cael eu defnyddio yn anghyfreithlon yn y broses. Maen nhw’n cymryd mantais o’r gwledydd tlawd gan fod cyfreithiau i warchod hawliau’r gweithwyr yn llawer llai llym. Mae hyn yn eu galluogi i dalu cyflogau llawer is nac y dylen nhw ac yn llawer llai nag y mae’r gweithwyr yn haeddu derbyn.
Mae tystiolaeth fod yr amodau gweithio yn beryglus i'r gweithwyr. Yn aml iawn, nid oes unrhyw reolau diogelwch yn cael eu dilyn sy’n gallu arwain at nifer o ddamweiniau yn y gweithle. Defnyddir cemegion niweidiol a thocsig yn y ffatrïoedd sy’n gallu arwain at afiechydon a salwch gwahanol, megis cancr ac anawsterau anadlu. Nid yn unig yw iechyd y gweithwyr mewn perygl parhaol, maen nhw hefyd yn gorfod gweithio oriau hir, am dâl sâl, efo diffyg adnoddau syml a weithiau yn dioddef cam-drin corfforol gan y rheolwyr.
Felly, i grynhoi, mae’r pwyntiau uchod yn cadarnhau fy marn fod ffasiwn brys yn hollol anfoesol ac er bod llawer o fanteision, megis cael dillad o’r tuedd diweddaraf yn gyflym ac yn rhad, nid yw hyn yn cyfiawnhau yr holl effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd, i fyd natur, i'r plant a’r gweithwyr yn y diwydiant a pharhad tueddiadau barus ein cymdeithas.
Felly, mewn casgliad: mae mwy a mwy o ddillad yn diweddu mewn safleoedd tirlenwi; mae dillad yn gostwng mewn safon yn gynt a chynt; maen nhw’n cael eu creu o ddeunyddiau mwy a mwy artiffisial sy’n niweidiol i'r amgylchedd; mae mwy a mwy o bobl yn methu’r grefft o weu a gwnïo; mae mwy a mwy o microffibrau’n llygru’r mor; mae mwy a mwy o ddŵr yn cael ei wastraffu i ateb gofynion cynyddol y diwydiant; mae mwy a mwy o nwyon tŷ gwydr yn cael eu rhyddhau ac mae mwy a mwy o bobl yn cael eu gorfodi i weithio dan amodau creulon heb dal teg, gan gynnwys plant.

Er ein bod yn twyllo ein hunain bod ffaswin brys yn ffordd o arbed arian, ar ddiwedd y dydd mae’r gost ar yr amgylchedd a’r gweithwyr yn llawer rhy uchel.